



MYNEDIAD AT WAITH ASESIADAU CYFANNOL PECYN CROESO

maximus

Mewn
partneriaeth
gyda'r



Adran Gwaith
a Phensiynau

Croeso

"Rydym yn credu bod gan bawb y sgiliau a galluoedd i weithio, ac mae cael swydd yn rhan fawr o fywyd iach a hapus."



Mae tîm **Asesiadau Cyfannol Mynediad at Waith** yma i sicrhau bod gennych y math iawn o asesiad ar gyfer eich anghenion. Mae gan ein tîm medrus o aseswyr ddealltwriaeth gadarn o'r problemau anabledd y gallech eu profi ac maent yma i'ch helpu i gael mynediad at gymorth priodol.

Mae Asesiad Cyfannol yn ystyried pob agwedd ar eich anabledd a'r rhwystrau sy'n effeithio arnoch yn y gwaith. Byddwn yn gweithio gyda'ch Rheolwr Achosion i'ch helpu i oresgyn y rhwystrau hyn trwy ddarparu atebion sy'n cyfateb i'ch anghenion.

Byddwn yn:

- Sicrhau fod gennych y math cywir o asesiad wedi'i archebu ar gyfer eich anghenion, yn unol â'r cyngor gan eich Rheolwr Achosion
- Trefnu amser addas gyda chi i'ch asesiad gael ei gynnal
- Cwblhau asesiad anghenion manwl gan archwilio'r holl ffactorau perthnasol a allai effeithio ar eich rhwystrau gweithle
- Darparu adborth ac argymhellion i'ch Rheolwr Achosion o fewn pythefnos.

Edrychwn ymlaen at eich helpu.

Gareth Parry

Cyfarwyddwr Rhaglen



Eich diogelwch

Diogelu eich preifatrwydd

Mae diogelu eich gwybodaeth bersonol yn bwysig iawn i ni. Rydym yn cadw, defnyddio, a rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau perthnasol, yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data a'r Polisi preifatrwydd yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Cedwir eich gwybodaeth yn ddiogel, a dim ond personél awdurdodedig fydd yn gallu cael mynediad iddi.

Diogelu

Byddwn yn darparu amgylchedd diogel i chi. Os ydych yn poeni am ddiogelwch, siaradwch ag un o'n tîm. Byddant yn sicrhau eich bod yn cael y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth cywir.

Amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant

Rydym yn darparu cyfle cyfartal i bawb. Mae hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw (rhywedd) a chyfeiriadedd rhywiol, fel y cyfarwyddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Datganiad triniaeth deg

Ni fyddwn yn derbyn unrhyw ymddygiad o wahaniaethu, aflonyddu neu fwlio.

Eich adborth

Rydym bob amser yn awyddus i wybod beth yw eich barn am ein gwasanaeth. Bob mis, byddwn yn cysylltu â chi ar gyfer arolwg fel y gallwch ddweud wrthym beth rydych yn ei hoffi am y gwasanaeth.

Rydym yn casglu'r adborth hwn gan ein holl gwsmeriaid ac yn ei rannu â Mynediad at Waith, i helpu i wella'r gwasanaeth hwn.

Proses gwyno

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod o bryd i'w gilydd efallai y bydd angen i chi godi pryder am agwedd o'n gwaith neu ymddygiad ein staff. Rydym yn cymryd pob adborth o ddifrif ac rydym yn gweithio'n barhaus i wella lefel y gwasanaeth a gynigiwn. Isod fe welwch y gwahanol ffyrdd y gallwch gysylltu â ni, beth y gallwch ddisgwyl pan y byddwch yn cysylltu â ni a sut rydym yn defnyddio eich syniadau i wneud yn siŵr ein bod yn cynnig y lefel uchaf o wasanaeth cwsmeriaid.

Rydym yn addo:

- Ymdrin â'ch cwyn yn gyflym a rhoi gwybod i chi am y sefyllfa
- Eich trin â pharch
- Ymchwilio i bob cwyn yn drylwyr ac yn wrthrychol
- Anfon ymateb llawn atoch sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd gennych
- Darparu canllawiau clir ynghylch beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb
- Cofnodi a monitro pob cwyn
- Cymryd camau gweithredu perthnasol i wella lefel y gwasanaeth a gynigiwn yn barhaus.



Mynd i'r afael â'ch pryderon

Siaradwch â'ch cyswllt yn Maximus i drafod eich pryderon. Ein nod yw datrys materion yn gyflym ac yn anffurfiol os yn bosibl.

Cwynion ffurfiol

Os na allwch ddatrys eich pryder yn anffurfiol, cyflwynwch gŵyn ffurfiol trwy:

E-bost: support-feedback@maximusuk.co.uk

Ffôn: 0300 456 8155

Ysgrifennu atom: 18c Meridian East, Meridian Business Park, Leicester LE19 1WZ

Proses gwyno

- Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn dau ddiwrnod busnes.
- Bydd rheolwr yn cysylltu â chi o fewn pum diwrnod busnes i drafod datrysiad. Ein nod yw datrys cwynion o fewn 10 diwrnod busnes.

Uwchgyfeirio

Os ydych yn anhapus gyda'r datrysiad, gallwch uwchgyfeirio'ch cwyn o fewn 10 diwrnod busnes drwy gysylltu â support-feedback@maximusuk.co.uk. Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu gan uwch swyddog rheolwr, a fydd yn cysylltu â chi i drafod datrysiad.

Uwchgyfeirio pellach

Os ydych yn dal yn anhapus, gallwch gysylltu â'r [Archwilydd Achosion Annibynnol \(ICE\)](#) o fewn chwech mis o'n hymateb terfynol. Gallwch hefyd gysylltu â'ch Aelod Seneddol (AS), a all gyfeirio eich cwyn at yr [Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd](#).

I ddarganfod mwy am Maximus, [ewch i'n gwefan](#).

Nodiadau



Ar gyfer fformatau amgen, e-bostiwch marketing@maximusuk.co.uk gan ddyfynnu 24-3303